



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gymraeg Gwenffrwd  
Stryd Chwitffordd  
Treffynnon  
Sir y Fflint  
CH8 7NJ**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Gwenffrwd

Mae Ysgol Gymraeg Gwenffrwd yn Nhreffynnon Sir y Fflint ac yn gwasanaethu'r dref a nifer o bentrefi cyfagos. Cymraeg yw prif gyfrwng a bywyd yr ysgol, ac fe gyflwynir Saesneg yng nghyfnod allweddol 2. Mae 187 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 17 oed meithrin, rhan-amser. Fe'u rhennir yn naw dosbarth.

Mae cyfran gyfartalog y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim dros y tair blynedd ddiwethaf tua 10%, sydd yn is na'r ganran genedlaethol. Tua 6% o'r disgyblion sydd yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 47% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn sylweddol uwch na'r ganran genedlaethol. Nid oes yr un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 1997, ac fe arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ionawr 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.  
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

## Crynodeb

Mae arweinyddiaeth flaengar a chadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel iawn, a gweledigaeth sy'n seiliedig ar ddarparu addysg o'r ansawdd uchaf posibl er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn hapus ac yn cyrraedd hyd eithaf ei allu.

Mae'r staff yn cydweithio'n hynod effeithiol fel tîm, a chânt gefnogaeth dda iawn gan y llywodraethwyr. O ganlyniad, mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn iawn ac yn cyflawni'n dda. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae tua hanner y disgyblion yn gwneud cynnydd tu hwnt i'r disgybl ym mhob pwnc.

Mae llais y disgybl yn elfen gref iawn o waith yr ysgol ac mae aelodau'r cabinet yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd niferus i fynegi eu barn ynglŷn ag agweddau pwysig. Mae ymddygiad a hunanddisgyblaeth bron pob disgybl yn ardderchog. Mae'r disgyblion yn hynod gwrtais, yn ystyriol ac yn uniaethu'n hynod effeithiol â'i gilydd. Mae'r rhain yn nodweddion rhagorol o waith yr ysgol.

Mae effaith safon uchel yr addysgu yn amlygu ei hun yn glir yng nghyflawniadau a lles rhagorol y disgyblion. Mae'r gweithgareddau dysgu hynod ddiddorol yn mynd i'r afael ag anghenion disgyblion o bob gallu, ac yn nodwedd ardderchog. Mae hyn yn ennyn eu diddordeb yn dda, yn datblygu eu medrau a'u chwilfrydedd tuag at ddysgu yn grefftus, ac yn cryfhau eu hymglymiad i'w gwaith yn llwyddiannus.

<b>Maes arolygu</b>	<b>Barn</b>
<b>Safonau</b>	<b>Rhagorol</b>
<b>Lles ac agweddau at ddysgu</b>	<b>Rhagorol</b>
<b>Addysgu a phrofiadau dysgu</b>	<b>Rhagorol</b>
<b>Gofal, cymorth ac arweiniad</b>	<b>Rhagorol</b>
<b>Arweinyddiaeth a rheolaeth</b>	<b>Rhagorol</b>

## **Argymhellion**

A1 Datblygu ymhellach fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar y lefel uwch

## **Beth sy'n digwydd nesaf**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhelliad o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â llais y plentyn, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Safonau: Rhagorol

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae medrau rhan fwyaf y disgyblion yn is na'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn iawn, yn cyflawni'n dda ac yn gweithio'n annibynnol yn llwyddiannus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae cyflawniad y rhan fwyaf o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir, gyda thua hanner y disgyblion yn cyflawni y tu hwnt i hyn.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw'r ffordd y mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu i safon uchel iawn at wahanol bwrpasau mewn ystod eang o bynciau a chyd-destunau. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn ysgrifennu darnau diddorol yn gynyddol gywir, er enghraifft am estronwyr o'r gofod. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un disgybl yn ysgrifennu brawddegau cysylltiedig, yn datblygu eu syniadau yn synhwyrol ac yn dangos gafael gadarn ar ffurf a dilyniant, wrth ysgrifennu i amrywiaeth o bwrpasau. Mae llawer yn mynegi barn yn effeithiol, er enghraifft wrth drafod a ddylid buddsoddi mwy o arian ar gyfer y parciau cenedlaethol. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn cyflwyno'u gwaith yn daclus iawn.

Mae medrau llafar a gwrando bron pob disgybl yn dda iawn. Maent yn gwrando'n astud ar oedolion ac ar ei gilydd, ac yn ymateb i gyfarwyddiadau a chwestiynau yn hyderus, gan ddefnyddio brawddegau diddorol. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod eang o eirfa briodol mewn amrywiol o sefyllfaoedd. Maent yn esbonio eu tasgau'n glir, wrth, er enghraifft, egluro beth roeddent wedi ei ddysgu am ddinosoriaid. Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu mewn modd hynod aeddfed yn y Gymraeg ac yn Saesneg ac yn mynegi eu syniadau, eu barnau a'u teimladau yn hyderus ac effeithiol mewn brawddegau estynedig.

Mae medrau darllen bron pob disgybl yn datblygu'n llwyddiannus iawn. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl ac yn gywir ac yn ymdopi'n dda â geiriau anghyfarwydd. Mae llawer yn darllen gyda mynegiant ac ystyr briodol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn ddeallus ac yn aeddfed yn y ddwy iaith. Gwnânt ddefnydd hynod o effeithiol o'u medrau darllen i gywain gwybodaeth berthnasol o lyfrau a thestunau amrywiol ac oddi ar wefannau i gyfoethogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ddysgu am y ferch o Bacistan a oedd yn ymgyrchu am yr hawl i ferched gael addysg.

Yn y cyfnod sylfaen, mae bron pob disgybl yn defnyddio medrau rhifedd yn llwyddiannus. Maent yn casglu gwybodaeth ac yn cofnodi eu canlyniadau yn fedrus mewn rhestrau, tablau, diagramau a graffiau bloc syml, er enghraifft wrth nodi hoff ddinosor y disgyblion. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o bwysau gan ddefnyddio unedau mesur fel gram a chilogram yn gywir wrth drefnu eitemau o'r ysgafnaf i'r trymaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau rhifedd bron pob un yn gadarn iawn, gyda'r disgyblion mwy abl yn cyflawni'n uchel. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio medrau mesur yn hynod effeithiol wrth gymharu arwynebedd erwau'r ffermydd a gafodd eu

boddi wrth greu Llyn Tryweryn. Maent yn datrys problemau rhifiadol yn effeithiol iawn wrth gyfrifo pa mor hir mae siwrnai llong yn ei chymryd o ddoc Mostyn i Ddulyn a nodi'r gwahaniaeth mewn amseroedd teithiau ar wahanol ddyddiau.

Mae medrau TGCh rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol ar draws yr ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn cofnodi pwysau gwahanol wrthrychau yn gywir ar lechen ddigidol ac yn arbed eu gwaith mewn ffeiliau priodol. Maent yn hyderus wrth greu brawddegau syml i ddisgrifio gwaith pobl o fewn y gymuned ac yn amrywio'r cyflwyniad gan ddefnyddio llun a lliw.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn creu ac archwilio data yn effeithiol i greu cyflwyniadau amlgyfrwng i atgyfnerthu eu gwaith, er enghraifft i ddangos peryglon ysmegu. Mae'r rhan fwyaf yn cynhyrchu cronfeydd bas data manwl iawn gan ddefnyddio taenlenni i gefnogi eu gwaith ymchwil wrth gyflwyno gwybodaeth am faint o bobl o wahanol wledydd a laddwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Fodd bynnag, nid yw medrau modelu wedi datblygu'n llawn ar y lefelau uwch, er enghraifft trwy greu rhaglenni aml-gyfeiriad i reoli offer amrywiol.

### **Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae bron pob un disgybl yn cymryd cyfrifoldeb aeddfed iawn am eu dysgu eu hunain, ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig. Maent yn dangos hyder ac aeddfedrwydd uchel wrth weithio. Mae hyn yn nodwedd ardderchog o fywyd yr ysgol, ac yn cyfrannu'n sylweddol at yr awyrgylch ddysgu effeithiol iawn sy'n bodoli yno.

Mae disgyblion o bob gallu yn gwerthuso'u hymdrechion ac yn gwella eu gwaith yn gynyddol annibynnol yn sgîl adborth cymedrol, effeithiol ac amserol gan oedolion neu eu cyfoedion. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith.

Mae llais y disgybl yn elfen gref iawn o waith yr ysgol ac mae aelodau'r cabinet yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd niferus i fynegi eu barn ynglŷn ag agweddau pwysig. Maent yn gwneud hyn drwy amrywiaeth eang o bwyllgorau effeithiol iawn, fel y cyngor ysgol, pwyllgor eco, 'e-cadets', chwaraewyr da, mêts grêt, dewiniaid digidol, grŵp 'heartstart' a ffrindiau'r ffreutur. Mae'r staff yn trosglwyddo cyfrifoldeb pellach i'r disgyblion i arwain agweddau pwysig drwy fynegi barn ar gynnwys polisïau sy'n berthnasol iddynt. Maent yn gwneud hyn yn gydwybodol iawn. Mae holl ddisgyblion yr ysgol yn cefnogi gweithgareddau'r cabinet yn frwdfrydig, drwy godi arian ar gyfer nifer o elusennau, fel ysgol yn Nepal. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach. Mae bron pob disgybl yn dangos balchder amlwg yn eu hysgol. Mae cyfraddau uchel o bresenoldeb yn adlewyrchu'r ffaith bod disgyblion yn hoffi bod yno. Maent yn ymddwyn yn gyfrifol a pharchus iawn ac yn arddangos lefelau ardderchog o hunanddisgyblaeth mewn gwersi ac ar adegau eraill o amgylch yr ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu ag ymwelwyr ac oedolion yn arbennig o dda. Maent yn hynod gwrtais, yn ystyriol ac yn uniaethu'n dda iawn â'i gilydd. Mae bron pob disgybl yn rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion eu cyfeillion, er enghraifft wrth eu helpu yn ystod amser cinio ac ar adegau eraill fel amser chwarae.

Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn gwybod at bwy i droi pan fydd angen cymorth arnynt. Maent yn ymwybodol o beryglon ymchwilio ar y we, a'r angen i wneud dewisiadau iach wrth fwyta ac yfed. Maent yn egniol a phob amser yn awyddus i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol i hybu eu ffitrwydd.

### **Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol**

Mae ansawdd yr addysgu yn rhagorol. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol tuag at gyflawniad uchel y disgyblion. Un nodwedd ardderchog yw'r drefn gytûn o gynllunio gweithgareddau dysgu sy'n ymestyn disgyblion o bob gallu yn effeithiol iawn. Mae'r gwaith yn seiliedig ar themâu a phrofiadau dysgu diddorol a dychmygus. Nodwedd arall arbennig iawn yw'r ffordd mae rhieni, gyda'u plant, yn cynnig awgrymiadau a syniadau ar ddechrau pob thema am yr hyn yr hoffent ei astudio. Mae hyn yn ennyn eu diddordeb a'u chwilfrydedd tuag at ddysgu yn grefftus ac yn cryfhau eu hymrwymiad i'w gwaith.

Mae athrawon a'r cymorthyddion yn gweithio'n hynod effeithiol fel tîm ac yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafar cyfoethog. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn o bob plentyn ac mae ansawdd eu cyflwyniadau a'u cwestiynau yn heriol a phwrpasol iawn. Mae hyn yn sicrhau bod bron bob disgybl yn ymroi'n llwyr i'w tasgau gan ganolbwyntio am gyfnodau estynedig ac arddangos cymhelliant uchel. Mae awyrgylch dysgu brwdfrydig ym mhob dosbarth gyda pherthynas weithgar yn bodoli ym mhob gwers.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu sefydlu'n gadarn drwy'r ysgol. Rhoddir adborth adeiladol ar lafar ac yn ysgrifenedig i ddisgyblion er mwyn iddynt ddeall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith. Mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion gydgyllunio gyda'r athrawon, i fyfyrion ar eu dysgu eu hunain a'u cyfoedion, ac i gyfrannu'n effeithiol at y broses o osod targedau ar gyfer eu gwaith. Mae'r elfen hon yn cyfrannu'n llwyddiannus at gynnydd a chyflawniad disgyblion.

Yn y cyfnod sylfaen, mae staff yn meithrin annibyniaeth disgyblion ac yn datblygu eu medrau yn effeithiol trwy ddarparu profiadau ysgogol a diddorol iddynt. Mae gan y staff ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion y cyfnod sylfaen ac maent yn ysgogi disgyblion i ddarganfod a dysgu'n annibynnol o'r cychwyn. Mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar y sylfaen gadarn hon drwy annog y disgyblion i gymhwyso'u medrau mewn tasgau heriol. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae egwyddorion y cwricwlwm newydd, 'Dyfodol Llwyddiannus', yn barod ar waith yng nghyfnod allweddol 2, a darperir tasgau a heriau o safon uchel iawn i'r disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n arbennig o effeithiol i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol. Un enghraifft nodedig sy'n cyfleu'r ddarpariaeth effeithiol hon yw'r dasg a roddwyd i ddisgyblion hyn i fynegi barn am yr hawl i bawb ar draws y byd gael addysg.

Mae gan yr ysgol ethos Cymreig naturiol, ac mae'r holl staff yn creu naws hynod gadarnhaol sy'n hyrwyddo hyn yn llwyddiannus ac yn ennyn brwdfrydedd y disgyblion tuag at yr iaith. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn gyffrous ac yn llawn dychmyg. Atgyfnerthir y profiadau yn effeithiol drwy ddarparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gystadlu mewn eisteddfodau, a mynd ar ymweliadau hanesyddol, er enghraifft i gestyll Conwy a Chaernarfon. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o'u hardal leol ac yn cynyddu eu diddordeb mewn traddodiadau, diwylliant a hanes Cymru yn llwyddiannus.

## **Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad yn hynod effeithiol ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles y disgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefn effeithiol iawn i olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Mae'r weithdrefn yn galluogi staff yr ysgol i gynllunio a darparu cefnogaeth gynhwysfawr i fynd i'r afael ag anghenion unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion i wneud cynnydd ardderchog o'u man cychwyn. Mae athrawon yn adnabod anghenion addysgol, emosiynol a chymdeithasol y disgyblion yn gynnar. Mae'r cymorthyddion yn gweithio'n hynod effeithiol o dan arweiniad yr athrawon neu'r cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol er mwyn gweithredu ystod eang o raglenni ymyrraeth o safon uchel iawn. Mae hyn yn elfen gref iawn o waith yr ysgol. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun addysg sy'n cynnwys targedau mesuradwy a heriol. Ar y cyd â'r disgyblion a'u rhieni, caiff y cynlluniau eu hadolygu'n gyson a'u haddasu yn ôl y galw. Nodwedd arbennig o waith yr ysgol yw'r ymrwymiad llwyddiannus sydd i sicrhau bod disgyblion yn gwneud digon o gynnydd fel nad oes angen iddynt barhau i dderbyn ymyrraethau am gyfnodau estynedig.

Mae'r arfer o gydweithio gydag asiantaethau arbenigol fel y gwasanaethau cymdeithasol a therapyddion iaith, ynghyd â gwrando ar lais y disgybl a rhieni, yn sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel i'r disgyblion a'r rhieni. Mae hyn yn cyfrannu'n dda i'r cynnydd arbennig a welir gan ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Drwy gyfraniadau'r pennaeth mewn cyrsiau hyfforddiant, mae'r ysgol eisoes wedi rhannu ei phrofiad yn y maes hwn fel arfer lwyddiannus iawn gydag ysgolion eraill o fewn yr awdurdod lleol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus iawn drwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli rheolaidd a thrwy weithgareddau'r cwricwlwm. Mae darpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol o ansawdd uchel iawn ac yn golygu bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at eraill. Amlygir hyn yn glir yn y ffordd hynaws y mae'r ysgol yn cynnig arweiniad gwerthfawr i'r disgyblion at fagu arferion ymddygiad da. Mae ymddygiad cyfeillgar y disgyblion i'w gilydd yn dyst o lwyddiant y cymorth gofalgwr hwn. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn iawn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, ac ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn deall sut i fod yn ddiogel. Mae ymroddiad yr ysgol i hyrwyddo gweithgareddau allgyrsiol, fel cystadlu mewn sesiynau hyfforddi pêl-droed lleol a dawnsio gwerin yn y dref, yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu ffitrwydd yr holl ddisgyblion.

Mae gan yr ysgol draddodiad amlwg o gystadlu mewn eisteddfodau ac mae hyn, ynghyd â chyfraniadau ysgrifenedig y disgyblion i bapur bro lleol, yn cyfrannu'n dda at ddatblygu medrau creadigol y disgyblion. Mae'r rhain, a'r cysylltiadau â'r gymuned, yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion ac yn dylanwadu'n dda ar ddatblygu eu medrau cymdeithasol a diwylliannol.



## **Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae arweinyddiaeth effeithiol a chadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel iawn a gweledigaeth bwrpasol sy'n cael eu rhannu'n llwyddiannus gyda chymuned yr ysgol. Mae'r dirprwy, aelodau eraill yr uwch dîm rheoli ac arweinwyr pwnc, yn ei chefnogi'n dda iawn gan sicrhau bod staff yn darparu addysg o ansawdd uchel ac yn ymrwymo'n gryf i gynnal a chodi safonau a lles y disgyblion. Mae hyn, er enghraifft, yn dylanwadu'n dda iawn ar nifer y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mae gan y pennaeth weledigaeth gadarn i hybu Cymreictod, meithrin parch ac annog y disgyblion a'r staff i wneud eu gorau.

Mae'r pennaeth wedi dosrannu cyfrifoldebau'n effeithiol ac yn chwarae rôl allweddol wrth ddatblygu staff a hybu cydweithio, gan rannu arfer dda tu mewn a thu hwnt i'r ysgol. Mae wedi sefydlu strwythur rheoli ac arwain cadarn sy'n rhoi cyfleoedd gwerthfawr i aelodau staff arwain mentrau sy'n seiliedig ar agweddau penodol o'r cwricwlwm, er enghraifft o fewn meysydd llythrennedd, rhifedd a TGCh. Mae'r cyfleoedd hyn yn datblygu arweinwyr y dyfodol yn llwyddiannus.

Mae pob aelod o'r staff yn meddu ar ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol. Maent yn cydweithio'n agos iawn ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod a chynllunio ar y cyd. Mae diwylliant o hunanarfarnu parhaus, sy'n canolbwyntio'n fanwl ar ddeilliannau disgyblion, wedi gwreiddio'n ddwfn ym mywyd pob dydd yr ysgol. Mae systemau cadarn iawn i adolygu cynnydd, nodi meysydd ar gyfer eu gwella a chymryd camau effeithiol i'w gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiad gofalus o ddata perfformiad cymharol yr ysgol a'i deilliannau, trefniadau asesu mewnol, craffu ar lyfrau a chynlluniau gwaith, ac arsylwi gwersi'n rheolaidd. O ganlyniad, mae'r arweinwyr a'r staff yn adnabod eu hysgol yn dda iawn ac yn mynd i'r afael â gwelliannau'n gyflym a llwyddiannus. Mae'r athrawon a'r staff i gyd yn cymryd rhan weithredol yn y broses o fonitro, gwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae'r cynnydd mewn cyrhaeddiad disgyblion o'u man cychwyn yn dystiolaeth gadarn o hyn. Mae cyfleoedd i rieni a disgyblion ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol yn gryfder amlwg.

Mae gan aelodau'r corff llywodraethol wybodaeth drylwyr am berfformiad yr ysgol drwy chwarae rhan flaenllaw yn ei phrosesau monitro, hunanarfarnu a chynllunio strategol. Trwy gydweithio'n effeithiol gyda'r uwch dîm rheoli, arsylwi ar wersi a chraffu ar lyfrau, mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o safonau'r dysgu a'r addysgu. Mae hyn yn eu galluogi i ddwyn yr ysgol i gyfrif a gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu effeithiol. Nodwedd arbennig o'u gwaith yw'r gweithdrefnau llwyddiannus maent yn eu defnyddio i fonitro a hyrwyddo presenoldeb.

Mae arweinwyr yn defnyddio adnoddau'n effeithlon i gyfoethogi'r cwricwlwm a chodi safonau disgyblion ym mhob maes. Mae gwariant wedi ei gysylltu'n briodol â blaenoriaethau gwella a chaiff y cyllid ei fonitro'n ofalus er mwyn sicrhau'r defnydd gorau ohono ac i ddarparu addysg o ansawdd uchel. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn ddarbodus i godi safonau'r ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i'w dderbyn. welir cynnydd amlwg ym medrau darllen ac ysgrifennu'r disgyblion hyn.

## Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

<b>Rhagorol</b>	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
<b>Da</b>	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
<b>Digonol ac angen gwelliant</b>	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
<b>Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys</b>	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/06/2018